# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/2021

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Robin Wyn Williams
**Parti:** Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Aethwy

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Panel Adolygu Tal a Graddfeydd | |
| Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau | |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | |
| Pwyllgor Trwyddedu | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Is-Gadeirydd 2018-2020 |
| - Llywodraethwr / Ysgol David Hughes, Porthaethwy | Aelod ers 2017 |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Porthaethwy | Aelod ers 2017 |
| - Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Aelod ers 2018<br><br>Presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r uchod i gyd |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Wedi chwarae rhan allweddol mewn sefydlu banc bwyd dros dro yn y Neuadd Goffa ym Mhorthaethwy yn ystod y cyfnod clo Covid-19 cyntaf ac wedi gwirfoddoli yn y banc bwyd yn ystod y cyfnod hwnnw gan baratoi a danfon parseli bwyd i wahanol unigolion a theuluoedd o amgylch Porthaethwy ac ardaloedd eraill de Ynys Môn. Hefyd wedi cynorthwyo'r gwaith o gasglu a danfon presgripsiynau a siopa i drigolion a oedd yn gorfod gwarchod eu hunain oherwydd Covid.

Wedi gweithredu ar bryderon nifer o drigolion y Ward mewn perthynas â materion cynllunio, priffyrdd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a nifer o faterion eraill a oedd yn achosi pryder yn ystod y flwyddyn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Banc Bwyd Porthaethwy fel y nodir uchod.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

## 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Roedd 2020/21 yn flwyddyn wahanol i bob un arall, blwyddyn a fydd yn aros yn y cof i bob un ohonom am weddill ein bywydau. Roedd yr hyn a ddechreuodd fel feirws anhysbys mewn cornel bell o Tsieina yn rhywbeth a ddaeth i reoli ein bywydau am y flwyddyn gyfan ac yn rhywbeth sy'n parhau i wneud hynny. Nid oeddem yn meddwl y byddai'n rhaid i ni fyw drwy gyfnod lle roeddem yn cael ein gorfodi i gau ein hunain i ffwrdd o'n teuluoedd, ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Er yr heriau, death pobl o bob rhan o Ward Aethwy ynghyd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd er mwyn helpu'r unigolion a'r teuluoedd hynny a oedd yn fwy bregus nag eraill ac roeddwn yn falch iawn o weld yr ysbryd cymunedol yn disgleirio ym mhob rhan o'r Ward yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig ac yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo a brofwyd. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Gallaf eich sicrhau bod eich ymdrechion wedi eu gwerthfawrogi gan ein cymunedau a diolch o galon i bob un ohonoch.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Robin Wyn Williams

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Robin Wyn Williams** | **Mai 2021** |